**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-04-00 (p.9a)**

**Dyddiad:** DYDD GYL DEWI 2000

**Lle:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** Bwrdd Croeso Cymru – llythyr Cyfarwyddyd Strategol

## Diben

1. Ceisio barn y pwyllgor am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y llythyr cyfarwyddyd strategol at Fwrdd Croeso Cymru ar gyfer 2000-2001, a pha dargedau y dylid eu gosod.

## Cyfarwyddyd strategol a'r cylch cynllunio

2. Yn y gorffennol, tua mis Mawrth bob blwyddyn, arferai Ysgrifennydd Gwladol Cymru anfon llythyr cyfarwyddyd strategol at Gadeirydd y Bwrdd. Bellach, yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ddylai anfon y llythyr, ar sail trafodaethau gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

3. Yn achos Bwrdd Croeso Cymru, mae'r llythyr cyfarwyddyd strategol yn gosod y fframwaith ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, gan greu fframwaith strategol ar gyfer y gwaith o lunio'r Cynllun Corfforaethol terfynol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dyma'r chweched llythyr o'r fath a anfonir at y Bwrdd – amgaeir llythyr y llynedd, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer y cynlluniau ar gyfer 1999-2000, yn **Atodiad A**.

3. Fel rheol, ceir cyfarwyddyd yn y llythyr ar flaenoriaethau bras o ran polisi, a chyfarwyddyd penodol am flaenoriaethau'r rhaglen y dylid eu hymgorffori yng nghynllun corfforaethol y Bwrdd. Ynddo hefyd y mae targedau blynyddol penodol sy'n cael eu monitro a'u hadolygu gydol y flwyddyn. Caiff y targedau hyn eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd a'u dyfynnu mewn dogfennau/papurau perthnasol gan y Cynulliad.

## Y Fframwaith Strategol a Awgrymir

4. Awgrymir y dylai'r Llythyr Cyfarwyddyd Strategol roi sylw i faterion polisi sy'n deillio o dair prif ffynhonnell

- Cynllun Strategol y Cynulliad – 'gwell cymru.com'

- blaenoriaethau'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol(NEDS)/y Gronfa Strwythurol

- cynlluniau penodol sy’n gysylltiedig â thwristiaeth, h.y. y strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth (gweler isod).

5. Mae Cynllun Strategol y Cynulliad yn cynnwys blaenoriaethau y mae angen gweithredu arnynt yn ddiymdroi, (e.e. camau i greu dyfodol newydd, mwy cynaliadwy ar gyfer ffermio ac economi cefn gwlad), themâu o bwys (e.e. datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol, a chyfle cyfartal) a’r gwerthoedd a’r blaenoriaethau a fydd yn llywio’r cynllun hwn (e.e. gweithredu mewn ffordd strategol, gweithio mewn partneriaeth, bod yn gynhwysol a hyrwyddo llywodraeth dda). Ynddo hefyd gosodir 2010 o feincnodau (e.e. creu economi gwell a chryfach).

6. Caiff nifer o’r 2010 o feincnodau eu hailadrodd yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol ac yn Nogfennau’r Gronfa Strwythurol, sy’n dechrau ymddangos. Ar ben hynny, bydd disgwyl i Fwrdd Croeso Cymru chware rhan mor llawn â phosibl yn y gwaith o weithredu, darparu a chyflawni’r rhaglenni hyn.

7. Mae gwasanaeth o safon a chynhyrchion o safon yn ganolog i’r profiad a gaiff ymwelwyr â Chymru. O ystyried y gwahaniaeth rhwng system raddio Bwrdd Croeso Lloegr a’n system ninnau, (mae cynllun Cymru yn seiliedig ar safon, a chynllun Lloegr yn seiliedig ar gyfleusterau), rhaid i Fwrdd Croeso Cymru a’r Cynulliad hyrwyddo’n cynllun graddio ansawdd a gwasanaeth ni fel yr "un go iawn". Mae gan Fwrdd Croeso Lloegr yr AA a’r RAC o’u plaid, wedi’r cwbl.

**Strategaeth Newydd ar gyfer Twristiaeth**

8. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi llunio strategaeth newydd ar gyfer twristiaeth gan fod ei strategaeth bresennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2000. Fe’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 17 Tachwedd a bwriedir ei hystyried ymhellach ar 15 Mawrth. Mae pedwar prif amcan i’r strategaeth ddrafft:-

**Amcan 1** Marchnata Cymru yn fwy effeithiol fel cyrchfan deniadol i ymwelwyr gydol y flwyddyn.

**Amcan 2** Rhagori ar ddisgwyliadau’r rheini sy’n ymweld â Chymru drwy ddarparu safonau uchel, a sicrhau bod buddsoddiad ym maes twristiaeth yn ymateb i’w hanghenion hwy, sy’n newid yn gyson.

**Amcan 3** Bod yn fwy proffesiynol a blaengar drwy godi proffil y diwydiant, a thrwy wella sgiliau, hyfforddiant a chymhelliant y gweithlu sy’n gweithio ynddo.

**Amcan 4** Coleddu dull cynaliadwy o fynd ati i ddatblygu twristiaeth, sydd o fudd i gymdeithas, sy’n rhoi rhan i gymunedau lleol, ac sy’n gwella’r asedau amgylcheddol a diwylliannol unigryw sydd gan Gymru.

Yn deillio o’r amcanion hyn, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi nodi materion strategol y mae angen i’r diwydiant fynd i’r afael â hwy, ac mae wedi datblygu Cynllun Gweithredu sy’n cynnwys 49 o bwyntiau

– mae’r Cynllun i’w weld yn **Atodiad B**.

**Brandio Cymru**

9. Mae’r Pwyllgor wedi gofyn i ‘Brandio Cymru’ gael ei gynnwys yn y cyfarwyddyd strategol. Ar hyn o bryd, ni wyddys yn union sut y bwriedir bwrw ymlaen â’r mater hwn. Gwnaed cryn dipyn o waith ar ddatblygu dull strategol o weithredu gan y grp ‘Brandio Cymru’, a rhoddwyd rhan i nifer o gyrff yn y sector preifat a’r sector cyhoeddus, gan gynnwys Bwrdd Croeso Cymru. Trafodwyd y mater hwn mewn cyfarfod llawn o’r Cynulliad ar 15 Rhagfyr. Bellach mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut i fynd ar ôl y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth, gan gynnwys yr "uwchgynhadledd" ar gyfer asiantaethau allweddol sy’n gyfrifol am hyrwyddo Cymru, a gynigiwyd gan y Prif Ysgrifennydd ar y pryd.

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-04-00**